# Cwmni

Papur Sir Caerffili: Cwm Aber, Ebwy, Rhymni a Sirhywi

Rhifyn 195 Pris 80c Mis Medi 2017



Yn y Motor Point.........

## PWYLLGOR A SWYDDOGION

*Ariennir yn rhannnol gan* ***Lywodraeth Cymru***

**Cadeirydd:** Robert Dutt **Ymgynghorydd:** Ann Lewis

**Trysorydd:** Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com

**Golygydd:** Ben Jones benamary2000@yahoo.co.uk 02920 862428 07891916046

**Ysgrifennydd:** Marian Fairclough faircloughme@aol.com 02920 885151

**Ysgrifennydd Cofnodion:** Ann Lewis **Golygydd Lluniau:** Mary Jones

**Cynorthwy-ydd:** Jan Penney **Digwyddiadur:** morganrowlands@mentercaerffili.cymru

**Ieuenctid:** Morgan Roberts, Swyddog Prosiect Llais, a Bethan Jones Menter Caerffili

**Y Pwyllgor:** Eirlys Thomas, Gareth W.Williams, Dilys Williams, Dafydd Islwyn

**e-bost**: Golygydd@papurcwmni.cymru **Gweplyfr/ Facebook:** Papur Bro Cwmni

**Gwefan:** menter caerffili.cymru/ Cwmni

**Croesawir erthyglau gan unrhyw un ond iddynt gyrraedd desg y Golygydd cyn 20fed diwrnod y mis cyn cyhoeddi.**

**Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid erthyglau neu luniau yn unol â gofynion golygyddol.**

Argraffir gan Tower Print, Uned 12a,Ystâd Ddiwydiannol Tŷ Bedwas ,Caerffili, CF83 8DW

## Oedfaon Mis Medi
## Capeli Cymraeg Caerffili

### Bedyddwyr Tonyfelin

3ydd Bore a hwyr Parch Milton Jenkins
10fed Bore a hwyr Mr Mansel Jones
17feg Cydaddoli ym Methel
24ain Bore a hwyr Parch Milton Jenkins

### Bethel yr Annibynwyr


3ydd. 10.30. Parchg. Eirian Rees.
10fed 10.30. Dafydd Treharne.
17eg 10.30 a 6 o.g. Dr. John Gwynfor Jones
24ain 10.30. Yr Ysgol Sul.

### Capel y Groeswen

Medi'r 10fed am 3:00 o'r gloch
Dathlu 275 mlynedd yr achos
gyda Bechgyn Tâf
Te yn y festri wedi'r gwasanaeth.



# Llongyfarchiadau



Estynnwn longyfarchiadau diffuant i'n colofnydd misol, Dafydd Islwyn. Wedi 36 o flynyddoedd yn Ysgrifennydd Cenedlaethol "Barddas", y Gymdeithas Gerdd Dafod, anrhydeddwyd ein bardd lleol gan y Gymdeithas drwy ei wahodd i fod yn Llywydd Anrhydeddus.


Wrth gyflawni'r swydd hon mae'n dilyn ôl traed beirdd amlwg y genedl. Y cyntaf yn y swydd oedd y Prifardd W. D. Williams, y bardd a'r llenor T. Llew Jones ac yna'r Meuryn enwog Gerallt Lloyd Owen.

Ym mis Mai 2015 dyfarnwyd iddo Wobr Cyfraniad Oes Cwlwm Cyhoeddwyr Cymru mewn seremoni yn Soar, Merthyr Tudful.

Cyhoeddodd nifer o gerddi gan gynnwys ei flodeugerdd 'Dal Diferion' (Cyhoeddiadau Barddas 1999) a dderbyniodd glod beirniadol. Ei gyhoeddiad cyntaf oedd 'Hydref y Rhos' (Tŷ Ar y Graig 1983) sy'n disgrifio ei fywyd cynnar yn Rhoscefnhir, Ynys Môn. Islwyn hefyd fu wrthi'n golygu dwy gasgliad o englynion, 'Cant o Englynion' (Cyhoeddiadau Barddas 2009) ac 'Englynion y Genedlaethol 1900-1999' (Cyhoeddiadau Barddas 2012).

# Hyrwyddo'r Gymraeg yn y Gymuned

Ganol hwyl a miri Ffiliffest yng nghastell Caerffili eleni cynhaliwyd cyfarfod pwysig a diddorol dan nawdd Menter Iaith Sir Caerffili.



Croesawodd Lowri Jones, Pennaeth y Fenter, westeion i Ffilifffest ac, yn fwyaf arbennig i lansiad Strategaeth Gymraeg Pum Mlynedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Yn ei hanerchiad rhestrodd yr holl fudiadau, llawer ohonynt yn wirfoddol, sydd wrthi'n datblygu'r Gymraeg o fewn ein sir.

Y siaradwr cyntaf oedd Chris Burns, Prif Weithredwr y Cyngor Sirol ac amlinellodd ef yr holl a wnaed dros y Gymraeg gan ei awdurdod ers ei ffurfio yn 1996. Yn ganolog i hyn, wrth gwrs, oedd adeilad newydd Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yng Ngellihaf a'r ail safle yn y Gwyndy. Ond byrdwn ei anerchiad oedd datgan mai un peth oedd dysgu iaith; mae ei defnyddio yn beth arall. Datblygodd hyn drwy sôn am y galw i fagu hyder a chyflwyno cyfleoedd. Fel dysgwr trwyadl ei hun, gallai werthfawrogi cymaint o hyder sydd ei angen i gyflawni hyn.






Dysgwr rhugl oedd yr ail siaradwr, sef Alun Davies A.C. y gweinidog yn y Cynulliad Cenedlaethol sydd â chyfrifoldeb dros yr iaith. Cyfeiriodd yntau, fel Chris Burns, at y targed o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Nodwyd y byddai galw ar i Sir Caerffili gyfrannu 50,000 o siaradwyr newydd fel ein cyfraniad ni tuag at y nod. Ond yn fwy na hynny teimlai nad oedd siarad rhyw iaith ysgol yn ddigon ond, yn hytrach, ei fod yn edrych ymlaen at glywed pobol yn defnyddio'r iaith yn hyderus o fewn eu cymunedau.

Y Cynghorydd James Pritchard (chwith) yw Pencampwr Cydraddoldeb y sir. Fe yw cynghorydd y ward y lleolir y castell ynddi ac, er nad yw e'n siarad Cymraeg, mae ganddo ferch fach dair a hanner mlwydd oed yn Ysgol Gymraeg Caerffili. Ei nod yntau oedd hyrwyddo'r iaith a chreu cyfleoedd ar gyfer ei defnyddio.

Talodd y tri siaradwr deyrnged i waith y Fenter Iaith ac i lwyddiant Fffiliffest eleni.

# Gareth Hughes



Un o nodweddion mwyaf calonogol twf Ysgolion Cymraeg yr ardal hon yw'r modd y mae'n hysgolion yn cynhyrchu eu staff eu hunain. Cofiwn adeg pan oedd galw ar Gymry Cymraeg Cymru benbaladr i ddod yn athrawon atom, ond nid felly mae hi bellach. A'r diweddaraf i amlygu ei hun ym maes addysg cyfrwng Cymraeg yw Gareth Hughes, uwch athro yn Ysgol Gymraeg Caerffili. Mae Gareth newydd ei apwyntio'n ddirprwy bennaeth yn Ysgol y Castell, Caerffili.

Ganed Gareth yn 1985 ar aelwyd lle nad oedd llawer o Gymraeg yn Llanbradach a mynychodd Uned Gymraeg Coedybrain yn y pentref hwnnw. Aeth ymlaen i Ysgol Gyfun Cwm Rhymni wrth adael Ysgol Gymraeg Caerffili yn 1997. Yn 2004 gorffennodd ei gwrs lefel 'A'/ 'AS' mewn Bioleg, Drama, Hanes ac Addysg Gorfforol a mynd i UWIC, Caerdydd i dderbyn hyfforddiant i fod yn athro.

Does ryfedd iddo ddewis astudio Ymarfer Corff, oherwydd bu'n chwarae rygbi i Ddwyrain Cymru dan 16, dros Academi Casnewydd dan 17 a Chaerffili dan 18. Yn ganolwr neu asgellwr, cafodd gytundeb gan Ddreigiau Gwent ond am fod hyn yn golygu trosglwyddo i ysgol gyfun cyfrwng Saesneg, sylweddololdd Gareth fod ei fywoliaeth yn bwysicach na gyrfa mewn rygbi. Felly, dychwelodd i Ysgol Gyfun Cwm Rhymni. Roedd yn rhan o dîm athletau Cwm Rhymni, y cyntaf i ennill pencampwriaeth Cymru gyfan. Bu'n cystadlu yn y ras 300 meter ac fe oedd pencampwr cenedlaethol taflu disgen dan 16. Trosglwyddodd nifer o'r sgiliau hyn i'w ddisgyblion yn Ysgol Gymraeg Caerffili lle, yn athro dosbarth, bu'n dysgu Ymarfer Corff yn ogystal â hyfforddi criced, rygbi, pêl-droed ac athletau.

Yng nghanol yr holl brysurdeb hwn, mentrodd hefyd i fyd teledu drwy fod yn "extra" mewn rhaglenni Teledu - Pobol Y Cwm, Dr Who, Torchwood a Casualty. Priododd Gareth â Vicky ym mis Awst 2014 a ganwyd Sophia Grace iddynt ym mis Tachwedd 2016.

Dywed ei brifathro yn Ysgol Gymraeg Caerffili, Mr Lynn Griffiths, "Er ein bod yn drist iawn i weld Mr Hughes yn gadael ein hysgol ni, ar ôl 10 mlynedd o ymroddiad llwyr i ddisgyblion yr ysgol a phedair blynedd fel aelod o'r Uwch Dîm Rheoli, dymunwn bob llwyddiant iddo yn Ysgol y Castell.


EISTEDDFOD CYMOEDD

**Nos Wener, 20fed o Hydref**

cychwyn am 4pm

Campws y Gwyndy, Caerffili

Eisteddfod y Cymoedd

eisteddfodycymoedd@gmail.com

@eistycymoedd

www.eisteddfodycymoedd.cymru

Gweler Rhestr Testunau 2017 ar dudalenau 11 a 12

# FFARWELIO



Ar ol 26 mlynedd fel Swyddog Datblygu Rhan Amser yn Rhanbarth Gwent mae Helen Greenwood yn ymddeol o'r swydd i ganolbwyntio ar ei swydd arall fel Arweinydd Ysgol Feithrin Pont-y-pŵl. Hoffai Helen ddiolch o waelod calon i bawb am yr holl gefnogaeth ar hyd y daith. Noda Helen:

Dros y 26 mlynedd diwethaf rwyf wedi cael y cyfle a'r fraint o gydweithio â channoedd o bobl frwdfrydig ac ymroddgar ar hyd ac ar led y Rhanbarth ac wedi gwneud cyfeillion di-ri. Oni bai am eu parodrwydd nhw i gefnogi, i wirfoddoli a rhoi o'u hamser prin i gyflwyno gwaith yr Urdd i blant a phobl ifainc y Rhanbarth, mae'n anhebygol buaswn i wedi aros yn y swydd cyhyd.

Mae twf addysg Gymraeg yn y De-Ddwyrain wedi mynd o nerth i nerth ac rwyf wedi gwylio'r ysgolion cyfrwng Cymraeg yn tyfu a dyblu mewn nifer. Rwyf wedi gweld yr ysgolion di-Gymraeg yn ymuno yng ngweithgareddau'r Urdd ac o ganlyniad mae aelodaeth y Rhanbarth wedi mynd o lai na fil yn 1991 i dros bum mil yn 2015.

Mae gweithio gyda phlant a phobl ifainc yn sicr yn cadw rhywun yn ifanc ac rwyf wedi gwylio cannoedd ohonynt yn mwynhau pob math o brofiadau amrywiol a chyffrous. Rwyf wedi eu gwylio'n tyfu a phrifio ac wedi profi balchder o weld rhai ohonynt yn dychwelyd neu aros yn yr ardal i weithio er budd yr Iaith – rhai ohonynt bellach yn rhieni eu hunain ac yn dewis addysg Gymraeg i'w plant.


Bues i'n lwcus o fod yn rhan o fwrlwm croesawu Eisteddfod yr Urdd i'r Rhanbarth ddwywaith - yn gyntaf yn 1997 i Barc Waunfawr ger Risca ac yna i gaeau Llancaiach Fawr yng Nghaerffili yn 2015. Heb amheuaeth, dyma fu uchafbwynt fy ngyrfa gyda'r Urdd ac roedd y balchder o weld dros 5000 o bobl yn gorymdeithio trwy strydoedd Caerffili ym mis Hydref 2014 wrth gyhoeddi ddyfodiad yr Ŵyl i'r ardal yn un o brofiadau gorau fy mywyd. Byddaf yn trysori'r atgofion yma am fyth.


O ganlyniad i hyn i gyd, nid peth hawdd oedd y penderfyniad i ymddeol. Rwyf wedi mwynhau pob eiliad ac mi fyddaf yn gweld eisiau'r her, y cyfeillgarwch, a'r wefr o fod yn rhan o fudiad mor arbennig. Does dim amheuaeth fod dyfodol yr Urdd yn y Rhanbarth eisioes yn saff yn nwylo medrus Angharad, a Casi a'r tim. Rwy'n dymuno'n dda iddynt ac yn edrych ymlaen at weld Rhanbarth Gwent yn mynd o nerth i nerth.

# Posau'r Plant

gan Mary Jones

Mae NAW gwahaniaeth rhwng y ddau lun. Allwch chi ddod o hyd iddyn nhw?




| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| E | I | S | T | E | DD | F | O | D | P | Y | LL |
| D | W | A | N | U | I | S | A | Y | A | D | E |
| T | E | W | N | LL | A | W | T | S | R | N | N |
| N | S | A | W | Y | N | O | E | G | A | Y | Y |
| A | C | O | R | S | I | W | I | W | B | W | DD |
| D | FF | LL | I | S | A | R | C | Y | L | G | I |
| DD | N | O | C | LL | E | F | A | R | U | I | A |
| R | Y | O | DD | M | CH | D | E | FF | G | H | E |
| E | L | B | I | L | M | N | O | P | R | S | TH |
| C | G | L | T | U | L | D | A | T | S | Y | C |
| TH | N | U | W | Y | A | B | C | CH | E | F | LL |
| TH | E | A | I | FF | A | R | G | O | T | O | FF |

Mae enw**15** o eiriau eisteddfodol yn y **Chwilair**.
Allwch chi ddod o hyd iddyn nhw?

EISTEDDFOD FFOTOGRAFFIAETH UNAWD

CÔR CERDD DANT CYSTADLU CANU

LLENYDDIAETH ENGLYN LIMERIG

CLOCSIO DYSGWYR LLEFARU

GWYNDY DAWNSIO

## Cân Actol Ysgol Ifor Bach 2017

Rydw i'n dwlu ar y gân actol. Mae mor ddoniol. Mae'n anodd i stopio gwenu! Rydw i'n dwlu ar y stori tu ôl iddi. Mae pawb yn joio.

Y stori yw... Roedd brenin mewn tref wastad yn sôn am ei ddillad trwy'r amser a phob dydd. Ond un diwrnod daeth dau ddyn i'r dref gan edrych yn slei fel llwynogod. Roedd Juan yn dod o Farselona a Gog yn dod o Ogledd Cymru. Troion nhw bobl y dref i feddwl eu bod yn gynllunwyr dillad – ond doedden nhw ddim!

Luke oedd yn chware rhan y brenin. Wrth gwrs byddai Luke yn un o'r prif gymeriadau! Mae y brenin yn cael tipyn bach o ddrama oherwydd mae Gog a Juan yn creu dillad anweledig. Fy hoff ran i oedd pan gwympodd y flanced a roedd Luke, y brenin, yn noeth! Roedd Gog a Juan wedi creu dillad anweledig!

Aethon ni i'r Eisteddfod Sir i gystadlu yn erbyn ysgolion eraill. Roedd y llwyfan yn fach iawn felly roedd rhaid i ni wasgu yn erbyn ein gilydd. Yn yr Eisteddfod Sir chwaraeais i gyda Arianna wrth aros am gyfle i berfformio. Roedd rhaid i'r merched newid yn yr ystafell focsio achos doedd dim lle arall i newid.

Wedyn roedd yn amser i fynd i'r Eisteddfod fawr ym Mhenybont. Cystadlon ni yn erbyn unarddeg ysgol arall. Roedden nhw i gyd yn ddoniol, lliwgar ac ardderchog! Credaf taw Ysgol Ifor Bach oedd y gorau – ond daethon ni yn ail ac mae hynny'n dda iawn. Mae'r dystysgrif ar y wal ar bwys mynedfa yr ysgol.

Pan ddechreuodd ymarferion y gân actol doeddwn i ddim eisiau gwneud e. Ond nawr rwy'n drist ei fod e wedi stopio!

gan Caitlyn Salmoni Blwyddyn 3

# Nigel Owens yn galw ar bobl Cymru i ddweud eu straeon



Mae'r dyfarnwr a'r cyflwynydd byd-enwog Nigel Owens yn galw ar bobl Cymru i fachu ar y cyfle i adrodd eu hoff straeon nhw i'r genedl gyfan mewn cyfres o ffilmiau byrion i S4C.

Fe wnaeth e osod y sialens i bobl y wlad yn yr Eisteddfod Genedlaethol, wrth ddatgelu prosiect cyffrous Chwedloni.

Bydd y ffilmiau byrion yn rhan fawr o dymor lliwgar o raglenni 'Chwedlau' S4C ym mis Tachwedd a fydd yn cynnwys amrywiaeth hudol o gynnwys i gyd-fynd â 'Blwyddyn Chwedlau 2017' Llywodraeth Cymru.

Medd Nigel Owens, "Mae gan bawb ei stori ddiddorol, rhywbeth rhyfeddol sydd wedi digwydd yn hanes y teulu neu'r gymdeithas ac rydyn ni eisiau ichi rannu nhw gyda ni i'w cynnwys nhw yn Chwedloni. Rwy'n gwybod am amryw hen chwedl leol o'n pentref ni a straeon diddorol o'r byd rygbi, y rhai sy'n weddus imi eu rhannu wrth gwrs! Mae Chwedloni yn brosiect cyffrous iawn ac rwy'n gobeithio y byddwch yn dod atom yn llu gyda'ch chwedlau gan ddangos cymaint o hwyl a dychymyg sydd gyda ni fel Cymry."

Os oes gennych stori dda yr hoffech chi ei rhannu, ewch ati i gysylltu â chwmni cynhyrchu Orchard nawr ar e-bost helo@chwedloni.cymru neu ar y ffôn 02920 100 888.

Medd Amanda Rees, Cyfarwyddwr Cynnwys Creadigol S4C,"Mae gan bawb o leiaf un stori, un chwedl bersonol maen nhw'n hoff o'i hadrodd - dros ginio gyda ffrindiau, dros beint yn y "pyb"….gall fod yn stori sy'n 'neud i chi chwerthin neu sy'n 'neud i chi lefain, sy'n eich synnu, eich swyno, eich arswydo hyd yn oed! Y syniad ydy dathlu a chasglu'r goreuon o'r straeon pentan yma dan faner "Chwedloni" ar S4C. Yn ogystal â chreu gwefan arbennig lle gallwch weld a gwrando ar ryw 50 o'r chwedlau gorau ar-lein, byddwn hefyd yn eu dangos rhwng ein rhaglenni oriau brig ar S4C drwy gydol mis Tachwedd".

Cafodd y prosiect 'Chwedloni', sy'n gynllun ar y cyd rhwng Croeso Cymru, S4C a chwmni cynhyrchu Orchard, ei lansio heddiw yn stondin S4C gan y cyflwynydd Lisa Angharad.

*Gofynnir i bob cyfraniad fod i mewn erbyn y 9fed o Hydref*

# Hwb i Addysg Gymraeg – Cronfa Glyndŵr

cronfa glyndŵr
www.cronfaglyndwr.net

Fe gafodd Cronfa Glyndŵr ei sefydlu yn 1963, ond mae'r cadeirydd presennol, yr hanesydd Catrin Stevens, yn awyddus i adael i genhedlaeth newydd sy'n gweithredu dros yr iaith Gymraeg wybod fod grantiau i'w cael i hyrwyddo addysg Gymraeg. Mae Cronfa Glyndŵr wedi cyfrannu dros £28,000 at 80 o brosiectau gwahanol ym mhob cwr o Gymru, ers 2011.
Ymhlith y prosiectau i elwa y mae Cylchoedd Meithrin Pontllanfraith a Chwm Gwyddon sy wedi derbyn arian i brynu adnoddau.

Gellir cael hyd i wybodaeth am sut i wneud cais ar wefan Cronfa Glyndŵr, sef www.cronfaglyndwr.cymru.

Yn ogystal â gwahodd mwy o geisiadau, mae'r Gronfa hefyd yn edrych am ragor o gyfranwyr hael. "Mae'n ffordd wych o helpu addysg Gymraeg," meddai Catrin Stevens. "Mae cyfraniad bach gan y Gronfa i brosiectau addysg Gymraeg yn gallu gwneud gwahaniaeth rhwng llwyddo neu fethu."

Un ffordd hollol ymarferol o gefnogi'r gronfa yw trwy ddod i ginio yng Nghlwb Golff Creigiau nos Sadwrn, Hydref 14eg. Y siaradwr gwadd fydd Dr Hefin Jones, Deon y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Gellir cael rhagor o wybodaeth a thocynnau trwy gysylltu â Helen Prosser – prosserh@btinternet.com.

# DATHLU 70 MLYNEDD Y GIG




Blwyddyn cyn pen-blwydd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn 70, mae National Theatre Wales heddiw yn galw ar gleifion, teuluoedd a staff, ddoe a heddiw, i rannu straeon am eu profiadau eu hunain o'r GIG.

Mae National Theatre Wales yn galw ar bawb a phob un yng Nghymru i rannu eu straeon - yn ddienw os mai dyna eu dymuniad - am yr effaith y mae'r GIG wedi'i chael ar eu bywydau; gan gleifion, meddygon, nyrsys ysgol, porthorion, therapyddion lleferydd, glanhawyr, llawfeddygon, perthnasau, gweinyddwyr a phawb yn y canol, am unrhyw beth o apwyntiadau meddygon teulu syml i lawdriniaeth wnaeth achub bywyd, gan gynnwys iechyd meddwl a phob cangen o feddygaeth, o obstetreg i ofal lliniarol. Rydym am gael straeon sy'n cynnwys y trasig a'r doniol, o Ynys Môn i Gasnewydd, o seiciatreg i bodiatreg, o 1948 hyd heddiw, ac o'r crud i'r bedd.

Mae National Theatre Wales heddiw wedi rhyddhau fideo, a ffilmiwyd wrth Gerrig Aneurin Bevan ger Tredegar, lle mae Cyfarwyddwr Artistig NTW, Kully Thiarai, yn apelio i unrhyw un sydd â stori i'w rhannu am eu profiadau yn y GIG neu gyda'r sefydliad, i gysylltu. Gellir gwylio'r fideo drwy glicio yma: nationaltheatrewales.org/cy/nhs70

*"Cafodd fy merch ei llawdriniaeth gyntaf yn chwe mis ac roedd y staff yn Ysbyty Treforys yn anhygoel. Nid wyf erioed wedi anghofio sicrwydd yr anesthetydd mai ei unig ffocws byddai ei gwylio hi ac y byddai'n ei dychwelyd hi yn ddiogel i mi ar ôl ei llawdriniaeth ...."*
*Mam deugain oed, Caerdydd*

Gan weithio gyda chymunedau ac artistiaid, a'i ysbrydoli yn rhannol gan y straeon personol a gasglwyd, bydd National Theatre Wales yn creu cyfres o saith o gynyrchiadau aml-lwyfan, fydd yn cael eu gwneud a'u perfformio yn fyw ar draws y wlad ac ar-lein ym mis Gorffennaf 2018 – a'u teitl ar y cyd fydd *NHS70.*

Cysylltwch â ni...
- trwy ymweld â nationaltheatrewales.org/cy/nhs70 a llenwi ffurflen ar-lein
- drwy'r post i National Theatre Wales, 30 Arcêd y Castell, Caerdydd CF10 1BW
- ar Facebook ar www.facebook.com/nationaltheatrewales, neu
- gan adael neges i'r cwmni ar y llwyfan cyfryngau cymdeithasol o'ch dewis gan ddefnyddio'r hashtag #MyNHS70

Bydd y saith cynhyrchiad ar ffurf llythyr caru i'r GIG, gan wlad ei enedigaeth. Bydd Cyfarwyddwr Artistig National Theatre Wales, Kully Thiarai, yn cyfarwyddo un o leiaf o'r saith cynhyrchiad.

Gan alw ar unrhyw un sydd â stori i'w hadrodd i ddod ymlaen, meddai Cyfarwyddwr Artistig National Theatre Wales, Kully Thiarai: "Mae bron yn sicr eich bod chi neu rywun yr ydych yn ei adnabod wedi bod yn glaf y GIG ar ryw adeg. Beth ddigwyddodd? Pa wasanaethau wnaethoch chi eu defnyddio? Pwy wnaethoch chi gyfarfod ar hyd y ffordd? Beth wnaeth y GIG drosoch chi? Neu efallai eich bod chi neu rywun yr ydych yn ei adnabod yn gweithio yn y GIG, neu'n arfer gweithio yno. Beth yw'r straeon sy'n sefyll allan o'r profiad hwnnw?"

Dilynwch NHS70 ar Twitter:
#MyNHS70
@ntwtweets

neu ewch i nationaltheatrewales.org/cy/nhs70

### Helo, Huw Rowlands ydw i………




Swyddog Cymraeg mewn Busnes newydd Menter Caerffili. Fel rhan o'r prosiect newydd cyffrous yma rydym am gefnogi busnesau lleol i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg yn ogystal â chefnogi'r busnesau hynny sy'n medru darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn lleol. Ariennir y prosiect drwy Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Wledig Cymru 2014-2020 a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd o dan Gronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig. Yn ystod fy mhedwar mis cyntaf yn y swydd dwi wedi bwrw ati i greu cysylltiadau a rhyngweithio gyda busnesau ac unigolion y Sir, yn ogystal â chwblhau'r Ffônlyfr newydd.

Dwi'n fachgen o'r ardal ac wedi byw yma erioed. Fe es i i Ysgol Gynradd Gymraeg Bro Allta ac yna ymlaen i Ysgol Gyfun Cwm Rhymni a phan oeddwn yn y chweched dosbarth fe ges i fy ethol i fod yn brif fachgen. Dros y blynyddoedd dwi wedi gwneud lot o waith gwirfoddol gyda'r Urdd, y Gwasanaeth Tân a Menter Caerffili. Roeddwn yn rhan o bwyllgor gwaith ieuenctid Eisteddfod Yr Urdd pan ddaeth i Gaerffili yn 2015.

Fy mhrif ddiddordeb tu allan i'r gwaith yw pobi, a dwi wedi dechrau busnes fy hun allan o'r diddordeb hyn yn creu cacennau ac eitemau melys o dan yr enw Huw's Kitchen. Dwi hefyd bellach yn arweinydd gyda'r Ymladdwyr Tân Ifanc, felly yn cadw fy hun yn ddigon prysur!

Dwi'n edrych ymlaen at her y prosiect ac os ydych yn nabod unrhyw fusnesau sydd angen cymorth neu a hoffai ddefnyddio mwy o'r Gymraeg o fewn y busnesau cysylltwch gyda mi ar huwrowlands@mentercaerffili.cymru neu ffoniwch 01443 820 913.

## Pantywennol: nofel gan Ruth Richards




Dyma'r nofel a drafodwyd ddiwethaf yng nghlwb darllen Caerffili. Pantywennol yw nofel gyntaf Ruth Richards ac fe gafodd ganmoliaeth uchel yng nghystadleuaeth y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol 2016.

Mae'r nofel yn seiliedig ar ddigwyddiad hanesyddol yn ardal Mynytho ym Mhen Llŷn, digwyddiad y cyfeiriwyd ato yn y *Caernarvon and Denbigh Herald*, Medi 29, 1866. Credai trigolion yr ardal fod bwgan yn ymweld â Phantywennol, cartref Elin Ifans a'i theulu, bwgan a oedd yn rhwygo dillad pobl a ymwelai â'r tŷ. Ar ôl cyfnod o amser, aethpwyd ag Elin i'r ddalfa a'i chyhuddo o wneud y rhwygo. Cafodd ei rhyddhau yn amodol ond wrth reswm fe effeithiodd y digwyddiad ar weddill ei bywyd ac i raddau helaeth fe giliodd o'i chymdeithas. Ond ai Elin oedd y bwgan, yr unig fwgan, mewn gwirionedd?

Wna i ddim dweud rhagor rhag amharu ar eich darlleniad o'r llyfr ond mae Pantywennol yn nofel hynod afaelgar a diddorol. Ceir darlun difyr iawn o gymdeithas Pen Llŷn ar ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg a phortreadau byw ac argyhoeddiadol o Elin, ei theulu a chymeriadau eraill o'r ardal. Mae'r iaith yn raenus dros ben ac yn rhoi blas hyfryd o dafodiaith y fro. Mae'r cyfan yn llifo'n rhwydd ac yn gadael argraff gref o gymuned wledig ddiarffordd lle gall ofergoeliaeth afael yn dynn. Ewch ati i ddarllen nofel arbennig iawn!

Bydd y Clwb Darllen yn cyfarfod yn Llyfrgell Caerffili ar brynhawn Llun cyntaf pob mis am 2.00 ac mae croeso mawr i chi ymuno â ni. Ar brynhawn Llun, Medi 4 bydd sesiwn agored lle bydd pawb yn sôn am nofel o'u dewis ac yna ar Hydref 2 byddwn yn trafod Awst yn Anogia, nofel Gareth F Williams.

*Ann Lewis*

# Ysgol Gymraeg Caerffili




## Ymweld â'r Gelli Gandryll

I ddathlu'r gwaith caled yn ystod y flwyddyn, fe aeth blwyddyn 6 a Chlwb Clecs yr ysgol ar drip i Ŵyl y Gelli ddydd Iau'r $25^{ain}$ o Fai. Roedd hwn yn gyfle arbennig i ddisgyblion fynychu gweithdai a chwrdd ag awduron a beirdd. Roedd y plant wedi gwirioni ar y cyfle i gael awduron i lofnodi llyfr yn bersonol iddyn nhw. Hoff awduron y diwrnod oedd Maz Evans, Guy Bass, Ali Sparkes ac Emma Carroll.



## Llun y Clawr

Ymunodd Côr Ysgol Gymraeg Caerffili â chorau eraill er mwyn canu fel côr mil o leisiau mewn cyngerdd dathlu deng mlwyddiant yr elusen Hybu. Roedd yn gyfle arbennig i berfformio gyda gwesteion megis Lee Mead a Paul Zerdin. Hoff ganeuon y plant oedd "Count On Me" a "Don't Stop Us Now". Cynhaliwyd y gyngerdd ar Fehefin y $30^{ain}$ yn y Motor Point Arena .

# Y Cadeirio



Eleni oedd yr ugeinfed waith i'r bardd Dafydd Islwyn ddod i feirniadu cystadleuaeth y Gadair yn Ysgol Gymraeg Caerffili - union ugain mlynedd wedi iddo ymddeol o'i swydd yn ddirprwy bennaeth yr ysgol.

Pedwar anrheg mae Dafydd Islwyn yn eu derbyn bob blwyddyn - medde fe! Pyjamas ar gyfer y Nadolig; licris olsorts ar Sul y Tadau a thocyn llyfrau ar ei ben-blwydd. A'r pedwerydd yw derbyn cynnyrch cystadleuaeth Cadair yr ysgol. Dywedodd hyn oherwydd cymaint oedd ei edmygedd o safon a gwreiddioldeb y 32 darn o waith a yrrwyd ato eleni.

Croesawyd ef i'r ysgol gan Archdderwydd eleni, Mili Lewis. Bu Mr Huws, fel yr ydym yn ei gofio yn yr ysgol, yn llongyfarch yr athrawon o bob blwyddyn academaidd gydag .arddeliad gan mai eu hymroddiad nhw sy'n arwain at y penllanw hwn. Ffrwyth holl flynyddoedd y cyfnod cynradd yw cynhyrchu gwaith creadigol fel hyn.



Dylan Lawlor

Dyfynnodd y beirniad nifer o ddywediadau a ddaliodd ei lygad wrth weithio drwy'r holl storïau. "O Garpiau i Gyfoeth" yn sicr oedd y teitl gorau a roddwyd i stori, er na ellir rhoi gwobr am deitl yn unig. Hoffodd hefyd y stori a ddechreuodd, "Unwaith roedd hen ddyn digartref, John oedd ei enw...." Yna, trawodd y cymal, "Mae rhywbeth ar goll yng Nghaerffili..." wrth i ni ystyried y cyfeillion a gollwyd yn ystod y flwyddyn a fu.

Roedd yn rhaid canmol gwreiddioldeb a dychymyg y cystadleuwyr. Ni fuont yn brin o fentro y tu allan i'r byd a'r adeg gyfarwydd. Fe fynegodd un awdur mai "Creaduriaid hapus sy'n byw yn y gofod, nid hen bobol gas."

Byddai Dafydd Islwyn wedi hoffi gallu rhoi 32 Cadair i'r ymgeiswyr ond rhaid oedd dewis, a dewis anodd oedd e ar adegau. Yn y diwedd "George North", sef Dylan Lawlor gipiodd y Gadair. Yn dynn ar ei sodlau yn yr ail safle oedd "Del" neu Aniko Potts ac yn drydydd "Megan", sef Alys Godfrey.



## "Welsh Heritage Awards"

Mae dosbarth Mr Williams wedi gwneud prosiect ar hanes ein hysgol. Edrychon ni ar sut newidiodd o fod yn Gwyndy Girls i St Ilan a wedyn i Ysgol Gymraeg Caerffili. Edrychon ni ar bob ystafell a'r adeilad a'u hastudio a gweld sut roedd pob ystafell yn cael ei defnyddio a pha rinweddau gwreiddiol sydd yn dal yna nawr yn yr ystafelloedd. Enillon ni wobr Treftadaeth a £100 am ein hymdrechion.

Yn y llun gwelwn Mr David Maddox, cyn Uwch Ymgynghorydd Hanes yn ESIS yn cyflwyno'r dystysgrif.

Llongyfarchiadau i'r plant a'u hathro.

Pob cystadleuaeth yn hunan-ddewisiad oni nodir yn wahanol

## Adran Gynradd

1. Unawd Bl 2-4
2. Unawd bl 5-6
3. Llefaru bl 2-4
4. Llefaru bl 5-6
5. Llefaru i ddysgwyr bl 6 ac iau
6. Unawd Offerynnol bl 6 ac Iau

*Perfformiad heb fod dros 5 munud o hyd*

7. Parti lleisiol Bl 6 ac Iau

*Dim mwy na 12 plentyn a 5 munud o hyd* 1af £25

8. Cyflwyniad Cerddorol / Theatrig - Thema Agored 1af £25

*Gellir defnyddio cerddorion neu gerddoriaeth wedi ei recordio. Heb fod dros 10 munud o hyd*
*Bydd angen cyflwyno copi o'r sgript a'r thema i'r beirniaid ar y noson*

9. Ensemble Offerynnol Cynradd

*Dim mwy na 4 munud* 1af £25

10. Côr Bl 6 ac Iau

*Perfformiad heb fod dros* ***5*** *munud o hyd a dim mwy na 2 ddarn*
1af £75 + cwpan 2ail £50 3ydd £30

11. Dawnsio Gwerin Unigol Bl 6 ac Iau

*Gellir defnyddio cerddorion byw neu gerddoriaeth wedi ei recordio.Dawns heb fod dros 3 munud o hyd **

12. Dawnsio Disgo Unigol Bl 6 ac Iau

*Gellir defnyddio cerddorion byw neu gerddoriaeth wedi ei recordio. Dawns heb fod dros 3 munud o hyd **

13. Dawnsio Grŵp Gwerin Bl 6 ac iau

*Gellir defnyddio cerddorion neu gerddoriaeth wedi ei recordio. Dawns heb fod dros 4 munud o hyd** +*

14. Dawnsio Grŵp Disgo Bl 6 ac iau

*Gellir defnyddio cerddorion neu gerddoriaeth wedi ei recordio. Dawns heb fod dros 4 munud o hyd***

****Cynhelir y cystadlaethau yn y neuadd ddawns ac fe fydd y buddugol yn perfformio ar y prif lwyfan****

**Rhoddir gwobr o £30 am berfformiad mwyaf addawol unawdol Cynradd cyst 1-6 a cyst 11-12**

**+ Cyflwynir 'Tlws Dawnsio Trwy'r Cwm' i'w gadw am flwyddyn â gwobr o £100 i'r grŵp dawnsio mwyaf addawol ym marn y beirniaid i gystadlaethau 13, 14, 22, 23**

## Adran Uwchradd

15. Unawd Bl 7-9

*Perfformir 1 darn yn unig*

16. Unawd Bl 10-13

*Perfformir 1 darn yn unig*

17. Llefaru unigol Oedran Uwchradd

*Perfformir 1 darn yn unig*

18. Llefaru Unigol i Ddysgwyr Uwchradd

*Perfformiad heb fod dros 5 munud o hyd*

19. Grŵp Llefaru i Ddysgwyr Uwchradd

*Perfformiad heb fod dros 5 munud o hyd*
1af £25

20. Dawnsio Gwerin Unigol Uwchradd

*Gellir defnyddio cerddorion byw neu gerddoriaeth wedi ei recordio*
*Dawns heb fod dros 3 munud o hyd ***

21. Dawnsio Disgo Unigol Uwchradd

*Dawns heb fod dros 3 munud o hyd ***
*Gellir defnyddio cerddorion byw neu gerddoriaeth wedi ei recordio.*

22. Dawnsio grŵp Disgo Uwchradd

*Dawns heb fod dros 4 munud o hyd**+*
*Gellir defnyddio cerddorion byw neu gerddoriaeth wedi ei recordio*

23. Dawnsio grŵp Gwerin Uwchradd

*Dawns heb fod dros 4 munud o hyd**+*
*Gellir defnyddio cerddorion byw neu gerddoriaeth wedi ei recordio*

24. Unawd Offerynnol Uwchradd

*Perfformiad heb fod dros 5 munud o hyd*

25. Ensemble Offerynnol Uwchradd

*Perfformiad heb fod dros 5 munud o hyd* 1af £25

****Cynhelir y cystadlaethau yn y neuadd ddawns ac fe fydd y buddugol yn perfformio ar y prif lwyfan****

**Rhoddir gwobr o £50 am berfformiad mwyaf addawol Oedran Uwchradd yng nghystadlaethau 15-18, 20-21 a 24 cyst 18**

**+ Cyflwynir 'Tlws Dawnsio trwy'r Cwm' i'w gadw am flwyddyn â gwobr o £100 i'r grŵp dawnsio mwyaf addawol ym marn y beirniaid i gystadlaethau 13, 14, 22, 23**

## Adran Hŷn / Agored

26. Unawd lleisiol Agored
*Perfformiad o 1 darn yn unig*
1af - £50 2ail - £30 3ydd £20

27. Unawd Canu Emyn
Unrhyw emyn allan o Caneuon Ffydd
1af £20 2il £15 3ydd £10

28. Unawd Sioe Gerdd Agored
*Darperir cyfeilydd swyddogol*
*Perfformiad ddim yn hwy na 5 munud*
1af £50 2il £30 3ydd £20

29. Llefaru Agored Unigol
*Cyflwyniad hunan-ddewsiad heb fod dros 5 munud mewn hyd ac fe ellir defnyddio unrhyw ffynhonnell*
1af £50 2ail £30 3ydd £20

30. Grŵp Llefaru Agored
*Cyflwyniad o 1 darn yn unig*
1af £50 2ail £30 3ydd £20

31. Côr Ieuenctid Bl 13 ac Iau
*2 ddarn cyferbyniol yn unig*
1af £100 2il £50 3ydd £30

32. 2awd, 3awd neu 4awd Cerdd Dant
1af £50 2ail £30 3ydd £20

33. Parti neu Gôr Cerdd Dant
1af £50 2ail £30 3ydd £20

34. 2awd, 3awd neu 4awd Clocsio
1af £50 2il £30 3ydd £20

35. Parti / Côr Gwerin Agored
*Perfformiad heb fod dros 5 munud o hyd*
*Nid oes hawl perfformio yr un darnau yng nghystadleuaeth 37*
1af £50 2ail £30 3ydd£20

36. Grŵp Dawnsio Agored
*Gellir defnyddio cerddorion byw neu gerddoriaeth wedi ei recordio* *Dawns heb fod dros 4 munud o hyd +*
1af £50

37. Côr Agored
*Perfformiad ddim yn hwy na 8 munud.*
*Cyflwyno 2 ddarn cyferbyniol ac i gynnwys 1 darn gan gyfansoddwr o Gymru*
1af - £300 + cwpan 2ail - £200 3ydd £100

Noddir y gystadleuaeth Côr Agored gan **C.Ô.R**

## Adran Lenyddiaeth

39. **Cystadleuaeth Lenyddol Agored i blant Cynradd**
Gwobr o £25 Thema: Agored

40. **Cystadleuaeth Lenyddol Agored Uwchradd**
**G**wobr o £25 Thema: Agored

*Gall fod yn gerdd, ymson, stori ddychmygol, neu yn rhan o ddyddiadur .*
*Caniateir cyflwyno un darn o waith yn unig i'r gystadleuaeth yma.*

41. **Limerig**
£10 i'r buddugol- i gynnwys y llinell
*'Aeth William i'w wely un noson'*

42. **Cerdd**
Heb fod dros 50 llinell ar y thema 'Ffosydd'
£10 i'r buddugol

43. **Englyn**
ar y thema 'Cadair' £10 i'r buddugol

44. **Llinell Goll** – Cystadleuaeth ar gyfer noson yr Eisteddfod *Gofynnir am dâl o £1 ar y noson i gystadlu*

## Adran Ffotograffiaeth *Agored i unrhyw oed*

45. Cyfres o luniau ar y thema 'Perthyn'
£15 i'r buddugol £10 i'r Ail £5 i'r trydydd

46. Darn o Gelf neu Lun unigol ar y thema 'Y Dyfodol' 1af £15 2ail £10 3ydd £5

**RHEOLAU CYSTADLAETHAU LLENYDDOL A FFOTO-GRAFFIAETH**


1. Dyddiad Cau derbyn y gwaith Llenyddol a Ffoto-graffiaeth yw **Dydd Gwener y 6ed o Hydref.**
2. Gellir danfon lluniau yn ddigidol neu wedi eu hargraffu.
3. Derbynnir y mathau canlynol o luniau - Jpeg / Tiff / PDF.
4. Wrth ddanfon y gweithiau at yr Eisteddfod, derbynnir y byddant o bosib yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Eistedd-fod ac yn y Papur Bro lleol – 'Cwm Ni' .
5. Gobeithiwn y bydd y Lluniau a'r gwaith Celf i'w gweld ar y noson yn Ysgol y Gwyndy.

Dyddiad Cau Cofrestru i Gystadlu a danfon y gwaith Llenyddol a Ffoto-graffiaeth
**Dydd Gwener - 6ed o Hydref**

Cymdeithas Eisteddfodau Cymru

Mae gofynion cystadleuaeth 37 - Côr Agored yn unol â gofynion 'Cystadleuaeth Cymdeithas Eisteddfodau Cymru'.
Bydd cystadlu mewn dwy Eisteddfod rhwng Mai 2016 a Mai 2018 yn rhoi'r hawl i'r côr gystadlu yn y gystadleuaeth hon yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2018.

# Colofn Dafydd Islwyn



Cafwyd Ymryson y Beirdd cofiadwy yng Nghwm Rhymni 1990. Ddydd Mercher, yr 8fed o Awst y timau oedd Caerfyrddin, Gweddill Cymru a Chaernarfon. Testun yr englyn cywaith oedd 'Y Ddawns Flodau'. Tarodd Gweddill Cymru ddeg marc em eu henglyn,

Eiddil ŷnt yng ngŵydd gwlad - yn eu plyg
Dim ond plant am eiliad
Ar grindir ein bir barhad
Yn rhoi ias i'n goroesiad.

Gweddill Cymru enillodd yr ornest. Testun yr englyn cywaith yn y Rownd Derfynol, ddydd Gwener y 10fed o Awst oedd 'Gari Williams'. Unwaith yn rhagor fe darodd Gweddill Cymru ddeg gyda'u henglyn sy bellach ar go' gwlad,

A'r sioe ar ben, er cau'r llenni - di-daw
Ynni y dorf. A glywi
O gwr y llwyfan, Gari
Sŵn chwerthin dy werin di?

Aelodau tîm cadarn Gweddill Cymru'r flwyddyn honno oedd Emyr Davies, Aber-porth a Chaerdydd, Llion Elis Jones, Bangor, y diweddar Iwan Llwyd, Talybont ger Bangor - a bardd Coron yr Eisteddfod—a Peredur Lynch, Bangor bellach. Mae Emyr yn dal i ymrysona yn y Genedlaethol yn aelod o dîm ymryson Sir Gaerfyrddin. Ciliodd Peredur o fod yn fardd cyhoeddus i'r byd academaidd a meysydd eraill. Bu'n cyd-olygu Gwyddoniadur Cymru gyda John Davies, Nigel Jenkins a'i gymar Menna Baines. Cyhoeddwyd y gyfrol yn 2008.

Bu farw Dic Jones, fis Awst 2009 ac yn y cylchgrawn 'Barn', rhifyn Medi'r flwyddyn honno cyhoeddwyd dau hir a thoddaid gafaelgar gan Peredur Lynch. Ymfalchïodd llengarwyr yn y ffaith bod Peredur, y bardd a ddaeth i amlygrwydd dri deg o flynyddoedd ynghynt, ond a distawodd, bellach yn ei ôl. Cadarnhawyd hynny pan gyhoeddwyd yn 'O'r Pedwar Gwynt' Nadolig y llynedd, ei farwnad i Gwyn Thomas.

Ddechrau mis Ebrill eleni cyhoeddwyd, gan wasg Carreg Gwalch, Llanrwst, y gyfrol gyntaf o gerddi Peredur, 'Caeth a Rhydd'. Meddai adroddiad am gyfarfod bwrw'r gyfrol i'r byd ym Mangor yn 'Yr Herald Cymraeg':

'Nid cynnwys y gyfrol yn unig sy'n gwneud 'Caeth a Rhydd' yn gyfrol i'w thrysori. Mae hon yn gyfrol hardd sydd wedi'i dylunio a'i rhwymo gyda chrefft a gofal ac yn cynnwys delweddau trawiadol i gyd-fynd â'r testun gan y dylunydd Olwen Fowler.'

Cyhoeddwyd ynddi englyn 'Y Ddawns Flodau'. Mae'n cofio mewn cywydd coffa ei gyd-ymrysonwr Iwan Llwyd,

Ond ni all dynrod y ne'
Hawlio dy gân i geule
Ni all un teyrn ei dryllio
Na chloi cerdd na chwalu co'
Am steddfodau'r dyddia da,
Na hawlio'r rebel ola'.

Yn 1973 sefydlwyd y dosbarth llenyddiaeth yng Nghaerffili gan Merêd. Dau englyn gan Peredur sydd ar ei fedd yng Nghwmystwyth,

Merêd, daw'n wyliau eto; - y daw rhywrai
Drwy'r eira i byncio.
Ai rhy gryf fydd bolltau'r gro?
A yw'r gân yn gryg yno?

"I eraill gyda'r Fari – y daw'r hwyl
Boptu'r drws eleni,
Ond o'i ddatgloi fe glywi
Drwy'u lleisiau hwy fy llais i."

Cyhoeddwyd yn y gyfrol hefyd ei englyn coffa i'w chwaer Amranwen Haf (1955-2003) a fu'n athrawes yn Ysgol Ifor Bach, Senghennydd,

Ni weddai henaint iddi – na chrych
Ar wedd a dihoeni;
Fan hyn, pan ddaw'n penwynni
Ni chawn ond ei harddwch hi.

Cyfraniad dylanwadol i'n barddoniaeth ydy'r gyfrol hon.

# Colofn Y Dysgwyr

gan Ann Lewis

Gobeithio i chi i gyd fwynhau'r gwyliau haf. Y tro yma dyma un o gerddi mwyaf poblogaidd T Llew Jones, yn disgrifio hwyl glan y môr ar ddiwrnod braf. Mae'r bardd yn gwahodd ffrind i ddod gyda fe i'r traeth. Sylwch ar y gwahoddiad taer – Ddoi di gen i? – ac yna'r hyder ar y diwedd – Gwn y doi!

## Traeth y Pigyn

Ddoi di gen i i Draeth y Pigyn
Lle mae'r môr yn bwrw'i ewyn?
Ddoi di gen i? Ddoi di gen i?
Ddoi di ddim?

Ddoi di i godi castell tywod
A rhoi cregyn am ei waelod?
Ddoi di gen i? Ddoi di - ?
Ddoi di ddim?

Fe gawn yno wylio'r llongau
A chawn redeg ras â'r tonnau,
Ddoi di gen i?
Ddoi di ddim?

O mae'n braf ar Draeth y Pigyn
Lle mae'r môr yn bwrw'i ewyn,
Pan fo'r awel yn y creigiau,
Pan fo'r haul ar las y tonnau.

Tyrd gen i i Draeth y Pigyn,
Fe gawn wyliau hapus wedyn.
Ddoi di gen i? Ddoi di gen i?
Gwn y doi!




mwyaf poblogaidd : most popular
gwahodd : invite
gwahoddiad taer : urgent invitation
hyder : confidence
bwrw'i ewyn : throwing up spray
Ddoi di gen i? : Will you come with me?
tywod : sand
cregyn : shells
llongau : ships
tonnau : waves
awel : breeze
Gwn y doi! I know you'll come!

## Yr Atebion:

Dyma ni! Sawl un gawsoch chi'n iawn wrth wneud posau tudalen 6?





# Merched y Wawr Cwm Rhymni'n dathlu'r aur!

A oes unrhywun yng Nghymru sydd ddim yn gwybod bod Merched y Wawr yn dathlu'r 50 mawr eleni? Rwy'n siwr i chi weld y dathliadau ar faes yr Eisteddfod ym Môn, os na chawsoch gyfle i weld neu i glywed rhywbeth am y digwyddiad, ac am hanes y mudiad, ar y cyfryngau.

A rhag ofn i chi feddwl bod popeth pwysig yn digwydd rywle arall yng Nghymru, hoffai aelodau Cangen Cwm Rhymni o'r mudiad eich sicrhau ein bod ni yn y cwm yma'n dathlu gyda'r gorau!



Dechreuoedd ein dathliadau nôl ym mis Ionawr, pan gawsom noson fendigedig yng nghwmni Branwen Cennard dalentog – a chafodd hi gyfle i dorri (a blasu) ein teisen ben-blwydd.

Yna, ym mis Chwefror, mwynheuon ni ginio da yng ngwesty moethus Manor Parc, ar gyrion Caerdydd – a derbynion ni bob un fag mawr y dathliad. Gwelwyd ni'n chwifio'n bagiau gydag arddeliad mewn rhifyn blaenorol o "Cwm*ni*"!

Gwnaethon ni rai pethau ymarferol hefyd yn ystod y flwyddyn – cyfrannodd rhai o'n haelodau medrus hecsagon i gwilt anferth y dathlu, a llwyddon ni i gynllunio 'tyniad i fyny' (neu ba air bynnag yr hoffech ei ddefnyddio am 'pull up') fydd yn tynnu sylw at y gangen mewn digwyddiadau Cymreig: efallai i chi ei weld yn Ffiliffest.

Ac mae'r flwyddyn wedi mynd yn ei blaen felly – cyfuniad o fwynhau a dathlu, o gynllunio a gweithio, a hynny i gyd trwy'r Gymraeg, ac mewn awyrgylch gwbl gyfeillgar a chartrefol. Ond nid yw'r flwyddyn aur wedi gorffen eto! Bydd y gangen yn ail-afael yn ei gweithgareddu ar Fedi'r 20fed, yn festri capel Bethel, Caerffili, pan fydd Linda White yn dychwelyd, ar gais yr aelodau, i gynnal gweithdy crefft.

Cawsom gyfle'n gynharach eleni i glywed hanes difyr y modd y dechreuodd Linda ymddiddori mewn cwiltio a gwnïo, ac i edmygu ei gwaith cain. Cytunodd Linda'n garedig iawn i ddychwelyd atom i roi cyfle i ni arbrofi yn y maes hwn ein hunain, dan ei harweiniad medrus – ac i greu cwpl o anrhegion pwrpasol iawn at y Nadolig, gyda lwc. Llwyddo neu beidio, cawn dipyn o hwyl, rwy'n gwybod.

Ac os na fydd hynny'n apelio atoch, beth am drip fach ar y trên lawr i'r Bae ar Hydref 18fed? Byddwn yn cychwyn allan am 11.00 y bore, felly does dim rhaid i chi fecso am fynd allan gyda'r nos. Cawn sgwrs gan un o arbenigwyr Crefft yn y Bae, a mwynhau cinio bach ysgafn wedyn – a dod adre pryd bynnag fydd yn ein siwtio!

Felly – os oes ffansi gyda chi ddathlu hanner can mlwyddiant un o fudiadau mwyaf dylanwadol Cymru, neu i fwynhau sgyrsiau difyr a bwyd da, neu i ymweld â mannau newydd, o erddi i ganolfannau diwylliant, neu i wrando ar feirdd coronog (ond pa un?) neu hanes teithiau i'r Wladfa a Croatia – dewch i gadw cwmni gyda ni ym Merched y Wawr eleni!

Byddwn yn falch iawn o gael eich cwmni, yn enwedig yn y flwyddyn arbennig hon. Os hoffwch wybod rhagor, cysylltwch gyda **Jenni Jones-Annetts ar 02920 868236 neu j.jonesannetts@gmail.com.**

## Teithiau Clwb Cerdded

**10:00—12:00**




- Medi 6 - Llancaiach Fawr - Cwrdd ym maes parcio Llancaiach Fawr CF46 6ER
- Medi 13 - Glawswelltiroedd Aberbargoed - Cwrdd ym maes parcio Swyddfa Menter Caerffili Parc St Margaret's CF81 9FW
- Medi 20 - Penpedairheol - Cwrdd ym maes parcio Beechgrove social club CF82 8BT
- Medi 27 - Bedlinog - Maes Parcio Canolfan ddringo Bedlinog CF46 6RD
- 4 Hydref - Cyfarfod Cynllunio - Swyddfa Menter Caerffili
  *Suite 1, Parc St Margaret's, Aberbargod, CF81 9FW*

*Bydd angen gwisgo esgidiau cerdded addas ar gyfer y teithiau.


## NOSON GEMAU MISOL

**NOS WENER**
**MEDI 8 2017 @ 6PM**

YSTAFELL CYFARFOD
SWYDDFA MENTER CAERFFILI
*PARC ST MARGARETS, PENGAM ROAD,*
ABERBARGOD
CF81 9FW








CYFLE I CHWARAE GEMAU FIDEOS A CHYMDEITHASU GYDA FFRINDIAU. NOSON 18+
*GEMAU* : PLAYSTATION 1 - MICRO MACHINES, DESTRUCTION DERBY, JONAH LOMU RUGBY

## Boreau Coffi

| | |
|---|---|
| Bore Coffi Caffi'r Graig Bedwas Dydd Llun | (10:30-11:30) |
| Bore Coffi Wetherspoon's Caerffili Dydd Mawrth | (10:00-11:00) |
| Bore Coffi Wetherspoon's Coed Duon Dydd Iau | (10:30-11:30) |



## SADWRN SIARAD

Medi 30

**10:00-12:00**

Y Beech Tree,
Ystrad Mynach

Pob Nos Fawrth 7:00yh

**Côr Cwm Ni**

Capel Bryn Seion,
Ystrad Mynach

## CYFARFOD BLYNYDDOL

Cwmni

Ysgol Gymraeg Caerffili

Nos Fercher

27ain o Fedi

**7:00 y.h.**

Dewch i fynegi barn

Croeso cynnes i bawb

Canolfan Siloh Ystrad Mynach

## Saib@Siloh – *gyda Ioan*

BEIBL BYW

Cyfarfod defosiynol misol Cymraeg

10.30 – 11.30 ar fore Llun

**4 Medi** – Ysbryd cryfach, Cariad dyfnach *(1 Ioan 4:1 - 12)*

**2 Hydref** – Byw trwy'r frwydr *(1 Ioan 4:15-5:5)*

**6 Tachwedd -** Hyder mewn gweddi *(1 Ioan 5:6 - 21)*

*Croeso i bawb!*

ymholiadau@siloh.co.uk / info@siloh.co.uk / www.siloh.co.uk

*CF82 7AF 01443 813617*

**Nos Fercher, 20 Medi 2017 - am 7.30 - Bethel, Caerffili**

Bydd Linda White yn cynnal noson o grefft. Ar ôl iddi ddod i'n diddanu ym mis Mai, trwy ymddangos a siarad am ei chasgliad o gwiltiau, roedd cymaint ohonoch eisiau ei gweld yn dod 'nôl atom i gynnal gweithdy. Dyma hi'n cytuno dod ym mis Medi. Mae'r deunyddiau yn barod ganddi a ni gyd yn edrych ymlaen yn fawr gweld pa fath o waith fedrwn greu yn unigol o dan ei harweiniad.

**275 Pen blwydd y Groeswen**



10fed o Fedi 3:00 o'r gloch

Bechgyn Táf

TE YN Y FESTRI WEDYN

**www.iwcs.cymru**

**Sesiynau'n ail Gychwyn**

**Nos Fawrth, Medi'r 26ain**

Clwb Rygbi Penallta

6.00 – 8.00

£5 y sesiwn

**07745927308**

**Iwcsycwm2015@gmail.com**




Clwb Darllen Cwm Ni

**Ail Lawr**

**Llyfrgell Newydd Caerffili**

2:00 o'r gloch

Medi 4ydd **Dewis yr Aelodau**

Hydref 2ail **Awst yn Anogia**

Tachwedd 6ed **Dŵr yn yr Afon**

Rhagfyr 4ydd **Abermandraw**

Cyswllt

**janpenney@aol.com**




Bargoed Chiropractic

01443 879396

## Eisiau ymarfer eich Cymraeg?

Ymunwch â ni ar ail ddydd Mawrth y mis

Llyfrgell Caerffili ar yr ail lawr

Cyfarfod nesa – Medi 12ed

**2 o'r gloch**

Byddwn ni'n darllen "Straeon Tafarn"

gan Dewi Pws

**Cofiwch hefyd am:**

Bore coffi ym Medwas, Caffi'r Graig

bob dydd Llun o 10.30 ymlaen

A'r bore coffi yn y Malcolm Uphill

(Wetherspoons), Caerffili

bob dydd Mawrth o 10 o'r gloch ymlaen

Cyswllt: JanPenney@aol.com




**TACSI GORSAF CAERFFILI**

Cysylltwch â KEITH ar

022 362364 neu 07914 355195

facebook.com/tacsigorsafcaerffili



**Defnyddiwch Gardiau Debyd/Credyd**

Dillad Gwaith * Cit Hamdden * Gwisg Ysgol

JansanWear

Uned G, Ystad Ddiwydiannol

Bowen, Aberbargoed, CF819EP

# TAITH yr URDD i GATALUNYA



Disgyblion Ysgol Cwm Rhymni o flaen Sagrada Familia yn Barcelona



Tim anhygoel Bws Cwm Rhymni ar y  daith



Fe fu dros 150 o ddisgyblion Blwyddyn 9-10 Ysgolion Cyfun Cymraeg De Cymru ar daith am wythnos  i Gatalunya. Roedd 62 o'r rhain yn ddisgyblion yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ac fe wnaeth pawb fwynhau ymweld â Barcelona, Parc Thema Port Aventura, Parc Dŵr ac ambell i ddiwrnod o ymlacio yn y Ganolfan ac ar y traeth.